Golygfa

Toiledau cyhoeddus archfarchnad Tesco. Mae merch ifanc 17 oed yn eistedd ar y tŷ bach, mewn ciwbicl tila. Mae dau giwbicl gwag bob ochr iddi. Mae'r golau'n llachar a gwyn ac mae sŵn extractor fan i'w glywed yn y cefndir. Mae'r bin ar bwys y tŷ bach yn gorlenwi â chynnyrch mislif.

Mae'r ferch yn gwisgo'i gwisg ysgol a Dr Martens am ei thraed. Mae ei sgert yn gorffwys o gwmpas ei chanol. Mae ei choesau hi'n cael eu dangos i'r gynulleidfa. Mae ei phenelinoedd yn pwyso ar ei choesau a'i dwylo'n dal ei gên - fel plentyn yn cael ei lun wedi'i dynnu. Mae ffon fach wen yn pwyso ar ei phengliniau fel pont rhwng y ddwy goes.

Merch: Ma' nhw'n gweud bod tair gwaith mwy o facteria ar keyboard cyfrifiadur na sy na ar doiled cyhoeddus.

(Mae hi'n codi blaenau ei thraed er mwyn i'r gynulleidfa glywed pa mor sticlyd yw'r llawr. Codi'r ddwy droed i ddechrau wedyn un o bob un)

Sa i'n siwr chwaith. Sbrencs pisho, cachu, gwaed, chŵd, mwcs trwyn. Twtsh bach o'r cwbwl lot. Yn dy' ni'n greaduriaid gwaraidd.

(Mae hi'n troi'i thrwyn ar y bin wrth ei hochr)

'Na pam nes i wisgo sgert heddi. Mae cyngor oes Mam wedi'i drwytho ynda i; mae codi dy sgert dipyn glanach na gollwng dy drowsus.

Gwisgo trowsus i doiledau cyhoeddus? (gwneud sain buzzer mawr coch Britain's Got Talent i ddangos ei fod e'n anghywir).

Chi'm eisie'ch trowsus i hyd yn oed ticlo'r llawr ma. Gallai pob math o greaduriaid bach annymunol fachu yn y defnydd a glynu i chi am weddill y diwrnod. Nes i chi gyrraedd getre, taflu eich hun ar y soffa a gadael i'r gwehilion bach redeg reiat ar draws eich stwff chi gyd. Fel bws ysgol yn cludo plant o un lle i'r llall.

A wedyn ma gwisgo jumpsuit i doiled cyhoeddus yn rhywbeth arall.

Ma 'na'n drosedd ac yn hyd yn oed fwy o (nuh-uh – sain BGT eto). Chi'n dyblu'r risg o contamination, ac yn dioddef mwy ar y pryd gan eich bod chi'n eistedd 'na yn eich bra a hanner ucha'ch corff yn rhewi dan yr air con.

(Y ferch rholio'i llygaid i fyny i chwilio am sŵn yr extractor fan)

(Mae hi'n anadlu'n drwm ac yn symud ei phen oddi ar ei dwylo. Mae ei phenelinoedd yn aros yn yr un lle)

Fydden i'm 'ma 'se ddim rhaid fi. Allen i'm di neud e getre, gallen i? Be fydden i 'di neud gyda'r bocs, a'r cyfarwyddiade? Ac os ydw i'n y tŷ bach am fwy na 10 munud ma rhywun o lawr star yn galw amdana i. Dyw llonydd ddim yn gysyniad 'cyfarwydd' iawn yn tŷ ni.

Fi sy', chyl, wedi perswadio'n hunan bo rhywbeth i gael na. Dihunes i echddoe yn teimlo braidd yn sâl. Do'n i'm ishe brecwast. Peth od ar y naw i fi. Odd popeth yn troi arna i. 'Y'n crumpet menyn a jam arferol yn enwedig. Y texture. Yr arogl. Jest y syniad o'r peth. Rhif 1: Nausea and food aversions (gwneud ati gydag acen Saesneg grand). Fi bendant 'di bod yn fwy bloated dros yr wythnose' dwetha' 'ma 'fyd. Yn stryglo i dynnu 'mola mewn. (Anadlu trwy'i thrwyn a sugno'i bol i ddangos i'r gynulleidfa beth mae hi'n ei feddwl) Rhif 2: bloating. Ma'n nhrwyn i 'di bod yn llawn 'fyd, a do'n i'm yn gwbod bo hyn yn gallu bod yn arwydd ond; rhif 3: nasal congestion. Nath Google helpu i mherswadio i hefyd yn amlwg.

Fi wedi gwaedu fel normal ers mis Awst, ond dyw na ddim o reidrwydd yn golygu nad ydw i'n...

Ma'n gallu digwydd. Sa i'n deall siwt ma'n gweithio, ond ma'n digwydd. Fi'n cofio gweld ar This Morning cwpwl o flynyddoedd yn ôl, y ferch ma oedd wedi cael cryptic pregnancy ble doedd hi'm yn gwybod ei bod hi'n disgwyl nes iddi ddechrau rhoi genedigaeth. Dychmygwch! Blydi hel.

O'n i ffaelu stopo meddwl am y peth wedyn so es i i Boots gyne fach. Bues i'n hofran rownd stondin Rimmel a Maybeline am sbel. Pigo lipstic lan; tynnu'r caead plastic bant, troi'r mecanwaith i ddatgelu bwled o liw, esgus ystyried ei brynu fe cyn ei weindio fe nôl lawr i'w guddfan, hwpo'r caead arno'n saff a'i roi e nôl yn ei le. Ailadrodd y broses 'ma rhyw 8 gwaith a rhwng bob tro, codi mhen i gael pip sydyn fel meerkat mas o'i gynefin er mwyn trio cyfarwyddo'n hunan gyda chynllun y siop. Yn sganio'r arwyddion oedd yn hongian o'r to; skincare, photos, men's health, dental care... family planning. Ka-ching.

Es i draw yn ara bach, 'y nghorff i'n gwau'n gywrain trwy'r silffoedd o stwff. Yn llithro i gefn y siop gan ddenu cyn lleied o sylw â phosib at fi'n hunan. Sgan sydyn o'r opsiynau cyn cydio yn yr un rhata oedd na. Bocs o ddou am £4.99, jest rhag ofan bo un yn mynd yn wrong yn ife.

Wedes i'm byd wrth y fenyw tu ôl y til. Dim ond llithro'r bocs ar y cownter gan osgoi unrhyw gyswllt llygad. Do'n i'm eisie gweld y tosturi, na'r gwarth yn ei llygaid hi. Nac iddi weld yr euogrwydd a'r cywilydd yn fy rhai i.

“Four ninety nine de plis”.
O shit, odd hi’n siarad Cymraeg. Ffaeles i edrych arni. Doedd ei llais hi’m yn gyfarwydd ond beth os bod hi’n nabod fi? Yn nabod Mam? Neu’n Anti i un o’n ffirndie i? Digon posib rownd ffor hyn. Tynnes i £5 o ‘mhwrs a gadel iddi’i dynnu fe wrtha i. Aros am y newid.

“Chishe receipt?” Chi? O’n i yn ‘y ngwisg ysgol for god’s sake. A receipt? Dim jolch. O’n i’m ishe mwy o dystiolaeth.

Claddes i’r bocs ym mhoced ‘y nghot. Dim amser i dynnu ‘mag ysgol oddi ar ‘y nghefn a ffwndro i ffindio’r zip. Hegles i ddi o na a dod fan hyn; toiledau 5 seren Tesco.

(Menyw yn cerdded mewn i’r tŷ bach a chau drws y ciwbicl drws nesaf)

Cyn mentro ishte, nes i greu’n nyth arferol. Tip arall handi Mam. Rhwygo tri set o ddau sgwaryn o bapur a gorchuddio pob rhan o’r sêt er mwyn ‘neud yn siwr na fydde nghroen i’n cyffwrdd â’r oerfel na’r budreddi. Fel ‘ny, fi’n osgoi gorfod hofran fel rhyw gacynen ddryslyd. Er dyw e dal yn fawr o comfort station chwaith.

Ond fi’n falch bo fi wedi creu’r nyth ma fyd neu bydde mhisho i wedi tasgu i bob man. Yfes i ddou beint o ddŵr cyn mynd i Boots chos o’n i’n meddwl bod angen lot, i neud e’n iawn chimo. Ond mond neud yn siwr bod y llif yn bwrw’r targed am 5 eiliad odd ishe.

A gan bo fi di yfed gymint, ac afon Teifi'n llifo fel petai hi newydd brofi tridie o law, tasgodd e i bob man. Dros 'y mysedd i ac ar hyd top y nghoese i. Fi wedi sychu'n hunan nawr, obviously, a nath y nyth amsugno tipyn ohono fe. Ond ie, dal e na am 5 eiliad a wedyn ei roi e i orwedd yn fflat am 5 munud. Ti'm fod i'w ddarllen e ar ôl 10 munud achos galle pethe newid ar ôl ny yn ôl sôn.

(Gwasgu botwm ei ffôn gyda'i bys bach – ddim eisiau cael pi-pi arno fe – ffôn yn goleuo)

Na ni, ma 3 munud 'di bod yn barod.

Ma'n gweud ar y bocs "99% accurate".

(Dweud hyn wrth estyn am y bocs oedd yn balansio ar y peth papur tŷ bach a pwyntio at yr ysgrifen mawr mewn melyn)

So er gwell neu er gwaeth, bydd da fi ateb mewn dwy funud.

Ffyc.

(Gwneud wyneb teimlo'n sâl – llenwi ceg math o beth)

99% accurate. 1% yn fwy effeithlon na condoms am neud eu job. Prevention is better than cure, bois bach. Er, sa i'n siwr a yw 'ny'n berthnasol yn yr achos ma.

(Menyw yn dod mas o'r ciwbicl ac yn golchi'i dwylo)

Maes B-baby! (gwneud ystum ‘pout’ ac arwydd ‘peace’) lep. Nos Sadwrn odd hi. Y noson ola’, y noson fawr. O’n i heb fod da unrhyw un arall y nosweithi cynt ac o’n i’m yn bwriadu neud chwaith ond nath e jest digwydd rywffordd.

(Menyw yn gadael y tŷ bach)

Gethin Lloyd odd ei enw fe. Gog o ochre Bangor. Stiwdent na nawr.

(Menyw arall a’i merch fach yn cerdded mewn ac yn mynd i’r ciwbicl ochr arall)

Fe ddoth ata i tra bo fi’n ciwo am ddiod. Wedodd e bod e’n nabod un o’r bois tu ôl y bar so bydde fe’n gallu cal diod i ni’n dou yn rhatach. Neu fel wedodd e “rhatach i fi, am ddim i chdi”. Smooooth.

Ti’n gwbod yn ôl y ffordd ma rhywun yn edrych arnot ti os bo diddordeb da nhw neu ddim. O’n i’n gallu ei deimlo fe’n sganio pob elfen o ‘ngwyneb i. Ei lygaid e’n mynd ar grwydr; o’n nhrwyn i, lan at ‘y’n llyged i ac yna setlo ar ‘y ngwefuse i a’u gwylio nhw’n symud gan milltir yr awr, yn siarad shit am y ffaith bo Mam a Dad ‘di bod i Fangor a bo fi’n nabod rhai odd yn stiwdents na nawr a bo fi wedi ystyried e ar gyfer blwyddyn nesa ond bod fi’m yn siwr a licen i fynd mas o Gymru am newid. A fynte’n edrych arna i’r holl amser, yn llawn diddordeb yn y brwdfrydedd o’n i’n amlwg yn ei ddangos wrth barablu. Ond gwenu’n gam, yn annwyl nath e’r holl amser.

Ges i'n double vodka lemonade am ddim a chyn i fi gael cyfle i 'weud diolch yn iawn ges i'n llusgo bant gan Cara. Odd hi angen y'n help i gyda Sioned odd yn cadw cwmni difyr i feddygon St John's am ei bod hi 'di gor-neud hi, braidd. Clasur. Odd golwg arni 'fyd i fod yn deg.

(Mam a merch yn dod mas o'r ciwbicl ac yn golchi eu dwylo – y ferch fach tamaid yn fyr felly ar flaenau ei thraed a'i mam yn golchi ei dwylo iddi cyn gadael)

Ond, er i ni gael ein gwahanu, ffindiodd e fi 'to. Ar bwys y tân ar ôl i'r bandie i gyd orffen. A fan na fuon ni'n siarad am beth odd yn teimlo fel oese. Fi'n cofio teimlo'n dwym, dim jest achos y tân a'r shots ychwanegol o vodka o'r hipflask, ond achos ei fod e na. Odd ei fraich e'n 'y nal i, a finne'n teimlo fel rhyw gyw yn nghesail diogel ei fam. 'Y mhen i'n pwyso'n ysgafn ar ei frest e. Gallen i 'di cysgu na.

Nath ddim byd ddigwydd wrth y tân. O'n i'n ddigon hapus i aros na a siarad am oriau. Fe holodd, out of the blue, braidd "paball chdi ti ta un fi ta?". Sa i'n credu nes i ateb, jest dachre cerdded. Straffaglu i lusgo'n Dr Martens drwy'r borfa llaith. Teimlo fel sen i'n ei rwygo fe gyda phob cam, fel 'sen i'n halio'n nhraed drwy gae o shredded wheat. Ac odd 'y nghalon i'n curo'n gynt na'r gerddoriaeth oedd yn dod o'r babell DJ. Cymysgedd o gyffro, nerfusrwydd, ansicrwydd, ac alcohol.

Pabell fi. Cusanu nithon ni am sbel ac odd ny'n iawn. Odd e'n mynd amdani though, fi'n cofio na.

Ond ma popeth wedyn ‘ny braidd yn niwlog. Dath ‘y’n sgidie’ i bant. God knows shwt. Odych chi ‘di trio tynnu Dr Martens bant pan chi’n hollol gonners? Arhosodd popeth arall arno gan gynnwys y 3 jumper o’n i’n gwisgo a’n sgert i. Na rywbeth arall i chi, mae sgert tipyn haws na trowsus o ran ny.

Falle bo fi wedi’i gamarwain e trwy adel iddo fe ddod i ‘mhabell i yn y lle cynta. Ond sdim rhaid i bethe arwain at hynna bob tro chwaith. Falle dylen i di gosod y termau iddo fe cyn ‘ny. O’n i’n barod i roi hand job. Iawn, na’n limit i mewn pabell. Ond sa i’n un i fynd yr holl ffordd gyda rhywun ar ôl siarad gyda nhw am fater o orie, heb sôn am ei neud e’n rhywle rhywle. Croeso i bobl arall neud, but that’s not me. Dechreues i deimlo’n dynn wrth i bethe symud yn glou. Yn anghyfforddus o dynn drwydda i. Fi’n cofio gweud “na”, bo fi’m yn “siŵr”. Odd Cara a Sioned yn comatosed yn y compartment drws nesa a ma meddwl am y peth yn neud fi deimlo mor frwnt nawr. Ma nhw’n hollol ddi-glem am beth ddigwyddodd, heb sôn am hyn i gyd nawr.

Ond cario mlan i bwyso nath e nes bod e’n llwyddo i gael mynediad cyn mwmian “hogan dda” yn ‘y nghlust i. Hogan dda? O’n i’m yn neud dim byd heblaw gorwedd na. Dim hwn odd ‘y nhro cynta i ond fi’n cofio teimlo poen. Ac odd ny gan nad o’n i’n llythrennol, yn gorfforol barod amdano fe, heb sôn am yn feddyliol.

Ond falle bod dangos amheuaeth unwaith ddim yn ddigon.

Falle bo fi heb weud yn ddigon clir, yn ddigon uchel iddo fe glywed. Ma rhaid bo fi heb achos nath e'm stopio nes bod e wedi bennu. Ond falle bod e heb ddeall fi. Chimo, language barrier gogs a hwntws. Ond wedyn (saib) ma mwy o wahanieth rhwng "ie" ac "ia" na'n "nas" ni yn does e.

(Mae hi'n rhynu eto. Saib)

Sa i'n cofio fe'n gadel. Ma rhaid bo fi 'di cwmpo i gysgu achos fi'n cofio dihuno jest â marw ishe pisho. Odd e 'di mynd erbyn ny ac odd hi'n ole iawn felly ma'n rhaid bod y wawr wedi torri ers sbel bach. Prin odd y symudiade ar draws y maes pebyll 'fyd. Pishes i am o leia munud yn ddi-stop tu fas drws y babell. Fydden i'm di neud hi i'r portaloos, oce. A ta beth, sneb yn becso ffyc am unrhyw beth erbyn y bore ola'. Pishes i unrhyw risg o UTI mas. Trueni bo ti'm yn gallu pisho sperm mas fyd. Edryches i rownd, a'n llyged i'n llosgi, ar beth odd yn edrych fel canlyniad zombie apocalypse go iawn. Pebyll wedi'u rhacso, clystyrau o deck chairs amddifad, dim arwydd o fywyd heblaw am y cannoedd o ganiau Strongbow Dark Fruits odd fel blodau ar draws y cae.

Odd y mhen i'n corco a ngheg i'n sychach na gwallt wedi'i bleacho. O'n i yn feddw, y nos Sadwrn 'na. Fi'n gwbod bo fi. Ma' meddwdod yn cawlo atgofion, odyn, ond o'n i'n ddigon ymwybodol i wbod beth odd yn mynd mlan a fi'n cofio gweud "na".

Beth sy'n confusing yw, o'n i yn lico fe. Ma Cara a Sioned wastad yn tynnu 'nghoes i am y ffaith bo fi'n meddwl bo fi'n mynd i briodi pob bachgen sy'n dangos diddordeb ynda i. Ac o'n i yn teimlo rhyw gysylltiad rhyngthon ni y noson 'na. Wrth y bar, o'n i moyn bod na. Wrth y tân, o'n i moyn bod na. Ond yn y babell, sa i'n cofio teimlo bo fi moyn bod na. Ac yn sicr nawr, fi ddim am ei briodi fe, heb sôn am gael ei blant e.

(Ochenaid. Y ferch yn symud ei phenelinoedd ac yn sylwi ar y marciau coch ar ei choesau)

Ha. Ma 'mheneliniau i 'di gadael dau gylch coch ar 'y nghoese i. Fel pâr o dabledi halib orange!

(Mae hi'n syllu ar y marciau ac yn dilyn eu hamlinell gyda'i bysedd gan newid cyfeiriad bob hyn a hyn. Yn sydyn, mae larwm y ffôn yn canu – 5 munud ar ben a hithau'n cael bach o fraw)

Ffyc. Ffyc ffyc ffyc ffyc ffyc ffyc ffyc.

Ma pob grŵp o ferched di siarad am "Be fyddet ti'n neud se ti'n ffindio mas bo ti'n disgwl?" Ma'n moral dilemma sy'n dangos rhywbeth am bersonoliaeth pobl. Fi wastad 'di gweud heb feddwl am y peth bydden i'n cael gwared arno fe. Sa i'n gweud bydde fe'n rhwydd ond ffyc me, dim dowt na beth fydden i'n neud.

A fi'n gweud wrthoch chi nawr, os bo dwy linell fach binc wedi ymddangos fan hyn, y peth cynta fydda i'n neud yw diolch i Dduw bo fi'm yn byw yn Texas a ffono clinic i neud apwyntiad.

(Mae hi'n anadlu'n drwm ac yn gwasgu ei llygaid ar gau. Gyda'i llygaid dal ar gau...)

Sa i moyn edrych.

(Mae hi'n pigo'r ffon fach wen i fyny ac yn agor ei llygaid yn sydyn)

Un (ochenaid o ryddhad) Un sy 'na.

Diwedd.